ATODLEN 2

Gofynion ardystio

# RHAN 2

Ydau

PENNOD 1

Mathau o hadau

### Cwmpas Rhan 2

**8.** Mae'r Rhan hon yn rheoleiddio'r mathau o ydau yn Atodlen 1.

### Mathau a ganiateir o hadau ŷd

**9.**—(1) Rhaid i hadau ŷd fod yn—

(a) hadau cyn-sylfaenol;

(b) hadau sylfaenol;

(c) hadau ardystiedig;

(ch) hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf;

(d) hadau ardystiedig, ail genhedlaeth; neu

(dd) hadau o safon wirfoddol uwch.

(2) Caiff yr hadau fod yn gymysgedd o rywogaethau ŷd o wahanol amrywogaethau ar yr amod bod pob amrywogaeth yn y cymysgedd wedi ei hardystio ac yn effeithiol rhag lledaenu organebau niweidiol.

### Ystyr "hadau cyn-sylfaenol" (gan gynnwys hybridiau)

**10.** Hadau cyn-sylfaenol (gan gynnwys hybridiau) yw hadau—

(a) a gynhyrchwyd o genhedlaeth gynharach na hadau cyn-sylfaenol neu o hadau cyn-sylfaenol gan, neu o dan gyfrifoldeb, y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth; a

(b) a fwriedir ar gyfer cynhyrchu—

(i) rhagor o hadau cyn-sylfaenol;

(ii) hadau sylfaenol; neu

(iii) gydag awdurdod ysgrifenedig y bridiwr, hadau ardystiedig o'r categorïau CS, C1 neu C2 (ni chaniateir cynhyrchu amrywogaethau hybrid i C1 neu C2).

### Ystyr "hadau sylfaenol"

**11.** Hadau sylfaenol yw hadau sy'n cydymffurfio â'r amodau canlynol.

| *Math o ŷd* | *Amod* |
|---|---|
| Amrywogaethau hunanbeilliol o geirch, ceirch noeth, haidd, rhyg, rhygwenith, gwenith, gwenith caled a gwenith yr Almaen | Rhaid i'r hadau fod—<br>(a) wedi eu cynhyrchu o dan gyfrifoldeb y bridiwr yn unol ag arferion a ddiffiniwyd |

| *Math o ŷd* | *Amod* |
|---|---|
| | yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth; a<br>(b) wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu hadau ardystiedig o'r categorïau CS, C1 neu C2 |
| Amrywogaethau hybrid o geirch, haidd, rhyg, gwenith, gwenith caled, gwenith yr Almaen, rhygwenith ac indrawn | Rhaid i'r hadau fod wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu hybridiau |
| Amrywogaethau o rywogaethau indrawn sy'n beillwyr agored | Rhaid i'r hadau fod—<br>(a) wedi eu cynhyrchu o dan gyfrifoldeb y bridiwr, yn unol ag arferion a ddiffiniwyd yn eglur ar gyfer cynnal yr amrywogaeth;<br>(b) wedi eu bwriadu ar gyfer cynhyrchu hadau o'r amrywogaeth honno o'r categori 'hadau ardystiedig' croesiad triphlyg, neu o amrywogaeth hybrid "top cross", neu o hybridiau rhyngamrywogaethol |
| Indrawn, llinellau mewnfrid | Unrhyw hadau |

**Ystyr "hadau ardystiedig"**

**12.** Hadau ardystiedig yw hadau—

(a) o ryg, indrawn neu rygwenith a hybridiau o haidd, ceirch, gwenith, gwenith caled, gwenith yr Almaen;

(b) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau o genhedlaeth gynharach na hadau sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; ac

(c) a fwriedir at ddibenion ac eithrio cynhyrchu hadau ŷd.

**Ystyr "hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf"**

**13.** Hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf yw hadau—

(a) ceirch, haidd, rhygwenith, gwenith, gwenith caled, neu wenith yr Almaen, ac eithrio hybridiau ym mhob achos;

(b) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau cyn-sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; ac

(c) a fwriedir naill ai ar gyfer cynhyrchu hadau o'r categori 'hadau ardystiedig, ail genhedlaeth' neu at ddibenion ac eithrio cynhyrchu hadau ŷd.

**Ystyr "hadau ardystiedig, ail genhedlaeth"**

**14.** Hadau ardystiedig, ail genhedlaeth yw hadau—

(a) ceirch, haidd, rhygwenith, gwenith, gwenith caled, neu wenith yr Almaen, ac eithrio hybridiau ym mhob achos;

(b) sydd wedi eu cynhyrchu'n uniongyrchol o hadau sylfaenol, o hadau ardystiedig, cenhedlaeth gyntaf, neu, os gofynnir felly gan y bridiwr, o hadau cyn-sylfaenol sy'n bodloni'r amodau ar gyfer hadau sylfaenol; ac

(c) a fwriedir at ddibenion ac eithrio cynhyrchu hadau ŷd.

### Gofynion cnydau a hadau

**15.**—(1) Rhaid i archwiliadau o'r cnydau gan arolygwyr cnydau swyddogol neu drwyddedig gael eu cynnal yn unol ag Erthygl 2(3)(A) o Gyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC ar farchnata hadau ŷd([1]) ac Atodiad I i'r Gyfarwyddeb honno, a rhaid i'r cnwd fodloni'r amodau yn yr Atodiad hwnnw.

(2) Rhaid i'r hadau a gynhyrchir gan y cnwd gael eu samplu yn unol ag Erthygl 7 o'r Gyfarwyddeb honno ac Atodiad III iddi, a rhaid iddynt fodloni'r amodau yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno.

(3) Rhaid i'r cynnwys lleithedd mwyaf beidio â bod yn fwy na 17% yn ôl pwysau.

(4) Rhaid i glefydau ac organebau niweidiol sy'n lleihau defnyddioldeb yr hadau fod ar y lefel isaf bosibl.

(**1**) OJ Rhif L 125, 11.7.1966, t. 2309, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC (OJ Rhif L 166, 27.6.2009, t. 40).